# CYNGOR SIR DDINBYCH

# HYSBYSIAD O GYNIGION

# (B5437 Carrog)

# Dim Aros ar Unrhyw Adeg

## Gorchymyn Cyngor Sir Ddinbych (Gwahardd a Chyfyngu ar Aros a Llwytho a Lleoedd Parcio) (Cydgrynhoi) Amrywiad Rhif 2 Carrog 202 .

**RHODDIR RHYBUDD DRWY HYN** bod Cyngor Sir Ddinbych ("y Cyngor") yn ymarfer ei bwerau o dan Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984 ac ar ôl ymgynghori gyda Phrif Swyddog yr Heddlu, yn cynnig gwneud y Gorchymyn a enwir uchod, a bydd ei effaith fel y disgrifir yn yr atodlen isod.

Nodir manylion llawn y cynigion yn y Gorchymyn drafft ynghyd â'r cynlluniau atodol a datganiad o'r rhesymau ar gyfer cynnig i wneud y Gorchymyn, i'w gweld ar-lein ar wefan y Cyngor.

Gellir archwilio copi copi o'r Gorchymyn arfaethedig, a map sy'n dangos y darnau o ffordd y mae'r cynigion yn berthnasol iddynt, a datganiad o resymau'r Cyngor dros gynnig gwneud y Gorchymyn, yn ystod oriau swyddfa arferol yn Siop Un Alwad, neuadd Edeyrnion, Ffordd Llundain, Corwen, LL21 0DG.

Gall unrhyw un sy'n dymuno gwrthwynebu'r Gorchymyn arfaethedig wneud hynny drwy gyflwyno ymatebion i holiadur ynglŷn â'r cynigion ar wefan Cyngor Sir Ddinbych (www.sirddinbych.gov.uk/ymgynghoriadau) neu drwy anfon datganiad ysgrifenedig yn gwrthwynebu, yn nodi'r seiliau i'r gwrthwynebiad, at y Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol: Pobl, Cyngor Sir Ddinbych, Blwch Post 62, Rhuthun, LL15 9AZ, erbyn 2025 fan bellaf. Dylid nodi y gallai cynnwys unrhyw sylwadau y mae'r cyngor yn eu derbyn fod ar gael i'r cyhoedd ei archwilio.

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg. This document is available in English.

## HYSBYSIAD O GYNIGION - (B5437 Carrog)

### Atodlen

### Darnau o ffordd yn Carrog yn Sir Ddinbych

### Dim Aros ar Unrhyw Adeg

Mae'r Gorchymyn Amrywio hwn yn effeithio ar y B5437 yn ardal Pont Carrog ar y naill ben.

Dyddiedig 9 Gorffennaf 2025



Catrin Roberts, Pennaeth Gwasanaeth, Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol Pobl, Cyngor Sir Ddinbych, Neuadd y Sir, Ffordd Wynnstay, Rhuthun, Sir Ddinbych

(SBH/DCC2192928)